**[Report 1952] / Medical Officer of Health, Penllyn R.D.C.**

**Contributors**

Penllyn (Wales). Rural District Council.

**Publication/Creation**

1952

**Persistent URL**

https://wellcomecollection.org/works/t68ddyra

**License and attribution**

You have permission to make copies of this work under a Creative Commons, Attribution license.

This licence permits unrestricted use, distribution, and reproduction in any medium, provided the original author and source are credited. See the Legal Code for further information.

Image source should be attributed as specified in the full catalogue record. If no source is given the image should be attributed to Wellcome Collection.

Wellcome Collection
183 Euston Road
London NW1 2BE UK
T +44 (0)20 7611 8722
E library@wellcomecollection.org
https://wellcomecollection.org

WELSH BOARD OF HEALTH.
RECEIVED
20 NOV 1953
A.

CYNGOR DOSBARTH GWLEDIG PENLLYN:

ADRODDIAD

Y

SWYDDOG MEDDYGOL

ar

GYFLWR IECHYD Y DOSBARTH

am

1952.

MINISTRY OF HEALTH
LIBRARY

---

PENLLYN RURAL DISTRICT COUNCIL:

Annual Report

of the

Medical Officer of Health

for the year

1952.

---

## CYNGOR DOSBARTH GWLEDIG PENLLYN:

## ADRODDIAD Y SWYDDOG MEDDYGOL AM Y FLWYDDYN 1952.

Mr. Cadeirydd a Chynghorwyr.

Cyngor Dosbarth Gwledig Penllyn.

Mr. Cadeirydd, Foneddigion,

Cyflwynaf i chwi yr adroddiad am y flwyddyn 1952.

Hoffwn ddiolch i'r Meddyg W.F.Gapper, Swyddog Meddygol y Sir am weithredu fel Swyddog Meddygol y Dosbarth hyd yr ymgymerais a'r gwaith am ei gymorth caredig.

Amcangyfrif y Cofrestydd Cyffredinol o'r boblogaeth yng nghanol y flwyddyn oedd 2,811 - cynnydd o 12 ar y flwyddyn flaenorol.

Nifer y genedigaethau Byw-anedig oedd 43 (5 yn fwy nag yn 1951) a nifer y marwolaethau oedd 35 (13 yn llai nag yn 1951).

Ni fu achosion o farwolaethau o'r Darfodedigaeth ac ni fu hysbysiad am achos newydd o Ddarfodedigaeth yr Ysgyfaint yn ystod y flwyddyn.

Ni fu un achos o wenwyno oddiwrth fwyd.

Nifer yr achosion o glefydau heintus eraill a gofnodwyd oedd 19 ar mwyafrif o'r rhai hyn yn Frech Goch.

Dymunaf ddiolch i Mr. D.J.Jones yr Arolygydd Iechyd am ei gydweithrediad i grynhoi'r Adroddiad.

Ydwyd foneddigion,

Eich ufudd Was,

EVAN RICHARDS.

Swyddog Meddygol y Cyngor Dosbarth.

Digitized by the Internet Archive
in 2016 with funding from
Wellcome Library

https://archive.org/details/b28871194

## ADRODDIAD BLYNYDDOL SWYDDOG MEDDYGOL Y CYNGOR AM 1952.

### CYFFREDINOL.

| | |
|---|---|
| Arwynebedd y Dosbarth: | 98,469 o aceri. |
| Gwerth Trethiannol : | £6,418. |
| Poblogaeth (Ffigyrau'r Cofrestydd Cyffredinol) | 2,811. |
| Nifer y tai annedd : | 883. |

### GENEDIGAETHAU A MARWOLAETHAU:

| | |
|---|---|
| Cyfartaledd genedigaethau: | 1.16 |
| Cyfartaledd marwolaethau : | 0.85 |

### GENEDIGAETHAU:

| | |
|---|---|
| Byw a Marwanedig: | 43 |
| Bywanedig : | 43 |
| Marwanedig : | - |
| Genedigaethau yn ol mil o boblogaeth: | 15.30 |

| Bywanedig: | Gwryw | Benyw | Cyfanswm. |
|---|---|---|---|
| Cyfreithlon: | 23 | 20 | 43 |
| Anghyfreithlon: | - | - | - |

### MARWOLAETHAU:

| | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|
| Cyfanswm:- 35 | 19 | 16 |

| | |
|---|---|
| Marwolaethau yn ol mil o'r boblogaeth:- | 12.45 |
| Y ffigur am 1951:- | 17.15 |

| Marwolaethau plant dan flwydd oed: | Gwryw | Benyw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Cyfreithlon:- | 1 | 1 | 2 |
| Anghyfreithlon: | - | - | - |

| | |
|---|---|
| Marwolaethau plant yn ol mil o enedigaethau: | 46.51 |
| (Y ffigyrau am 1951) | 26.34 |
| Marwolaethau plant cyfreithlon yn ol mil o enedigaethau :- | Dim. |

| Marwolaethau plant dan bedair wythnos oed:- | Gwryw | Benyw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Cyfreithlon - | 1 | 1 | 2 |
| Anghyfreithlon- | - | - | - |

Marwolaethau mamau (Ynglyn a beichiogi a geni plant) - Dim (Yn ol mil o'r boblogaeth - Dim).
Marwolaethau o'r canser: - 11
(Yn ol mil o'r boblogaeth: - 3.91)
Marwolaethau oddiwrth Ddarfodedigaeth - Dim

## GWASANAETH IECHYD:

1. SWYDDOGION IECHYD.
   Un Swyddog Meddygol
   Un Arolygydd Iechyd.

2. CYFLEUSTERAU LABORDY:
   Dwr: Dadansoddiad cemegol gan y Dadansoddwr Cyhoeddus yng Nghaer
   Arolygu bacteriologaidd gan Labordy Iechyd y Cyhoedd, Conwy.

   Llaeth: Profion am lendid, ansawdd cadw a darfodedigaeth gan Labordy Iechyd y Cyhoedd, Conwy. (Ni chodir unrhyw dal ar yr Awdurdod Lleol am y profion hyn ar laeth).

3. CYFLEUSTERAU AMBIWLANS:
   Nid oes gorsaf ambiwlans yn y cylch.

4. CLINIGAU LLESIANT PLANT:
   Cynhelir clinig ddwywaith y mis yn Festri Capel yr Annibynnwyr yn y Bala.

5. CLINIGAU DARPAE GENI:
   Cynhelir clinig o'r fath unwaith yn y mis yn yr Aelwyd yng Nghorwen.

6. CLINIG ORTHOPAEDIG:
   Fe'i cynhelir ddwywaith yn y mis yn Festri Capel yr Annibynnwyr yn y Bala.

7. CLINIG DARFODEDIGAETH:
   Bob bythefnos yn yr Ysbyty yn Dolgellau.

8. ATALHEINTIO DIPTHERIA:
   Trefnir ar gyfer atalheintiad gan Swyddog Meddygol y Sir. Ceir atalheintio ar fabanod a phlant yn yr Ysgolion Cynradd yn gyson a mynych. Rhoddir derbyniad da i'r trefniant hwn gan rieni yn y Dosbarthiadau Gwledig.

9. YSBYTAI:
   Nid oes yr un ysbyty o fewn tiriogaeth y Cyngor Dosbarth.

10. AFIECHYDON HEINTUS:
   Cyfanswm yr Afiechydon Heintus (heblaw Darfodedigaeth) a wnaed yn hysbys yn ystod y flwyddyn: - 19

| | |
|---|---|
| Y Dwymyn Goch | - |
| Twymyn y Perfedd | - |
| Y Pas | 2 |
| Y Frech Goch | 16 |
| Parlys llym | - |
| Llid enynnol yr Ysgyfaint | 1 |

DARFODEDIGAETH:

| | | Achosion Newydd. | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gwryw | Benyw | Cyfanswm. |
| Ysgyfeiniol | – | – | – | – |
| Anysgyfeiniol | – | 1 | 1 | 2 |

MARWOLAETHAU O ACHOS DARFODEDIGAETH:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ysgyfeiniol | – | – | – | – |
| Anysgyfeiniol | – | – | – | – |

DARFODEDIGAETH:

Achosion Newydd o Farwoldeb yn ystod 1952 yn nhrefn oedran

| | Achosion Newydd | | | | Marwolaethau. | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedran | Anadlol | | Ananadlol | | Anadlol | | Ananadlol. | |
| | G. | B. | G. | B. | G. | B. | G. | B. |
| 1 | | | | | | | | |
| 2 | | | | | | | | |
| 5 | | | 1 | | | | | |
| 10 | | | | | | | | |
| 15 | | | | | | | | |
| 20 | | | | | | | | |
| 25 | | | | | | | | |
| 35 | | | | | | | | |
| 45 | | | | | | | | |
| 55 | | | | 1 | | | | |
| 65 | | | | | | | | |
| 75 | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |

## ACHOSION MARWOLAETH: 1952.

| | | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|---|
| Darfodedigaeth yr Ysgyfaint | – | – | – |
| Parlys llym | – | – | – |
| Canser Ystumog | – | – | 1 |
| Canser yr Ysgyfaint | – | 1 | 1 |
| Canser y Fron | – | – | 1 |
| " (Safleoedd eraill) | – | 5 | 2 |
| Anafau llestriog cyfundrefn y nerfau | – | – | 1 |
| Afiechyd rhydweliau'r galon | – | 1 | – |
| Gorbwys gyda chlefyd y galon | – | – | – |
| Clefydau eraill y galon | – | 7 | 6 |
| Clefydau cychredol eraill | – | 1 | – |
| Anwydwst | – | – | – |
| Llid yr Ysgyfaint | – | – | 3 |
| Bronceitus | – | 1 | – |
| Clefydau eraill y gyfundrefn anadlu | – | – | – |
| Casgliad ar yr ystumog a'r perfeddyn bach | – | – | – |
| Llid yr ystumog, y coluddion a'r dolur rhydd | – | – | – |
| Llid yr elwlod | – | 1 | – |
| Afiechydon eraill | – | 1 | 1 |
| Damweiniau gan foduron | – | – | – |
| Pob damwain arall | – | – | – |
| Hunanladdiad | – | – | – |
| Camffurfiadau genedigol | – | 1 | – |
| | | 19 | 16 |

## DEDDF CYMORTH GWLADOL 1948.

Ni bu un achos o dan Adran 47 o'r Ddeddf hon yn ystod y flwyddyn.

## GWASANAETH PELYDR X I'R CYHOEDD:

Ymwelodd y gwsanaeth hwn a'r Bala, ac aeth 781 o bersonau dan y Pelydr X

| | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|
| Dan 15 oed | 146 | 145 |
| Dros 15 oed | 265 | 225 |
| Cyfanswm | 411 | 370 |

Tai Newydd a godwyd:-

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Gan yr Awdurdod Lleol | 8 |
| 2. | Trwy ymgais breifat | 4 |
| 3. | Trwy gyfaddasiad | 1 |
| | | 13 |

Y mae nifer o ffermdai wedi eu hailgyflyru'n llwyr, yn bennaf o dan Gynlluniau Ffermio Mynyddig, a rhoddwyd cyflenwad o ddwr pibau ynddynt, ymolchle a chloseti; ond fe ganiateir i ormod o dyddynod ddirywi heb atgyweiriadau o unrhyw fath.

Nid yw nifer y tai newydd a godir yn ddigon i ateb nifer y tai gwrthodedig. Heblaw hynny, y mae anghyfartaledd mawr rhwng rhenti isel a chostau adeiladu uchel.

Diheintio:

Nid oes unrhyw fath o gyfleusterau ar gyfer diheintio dillad gwely ac ati, oddieithr yn y tai lle y bu afiechyd; ac nid yw hyn yn ddull boddhaol bob amser.

Cyflenwadau Dwr:

Yn ystod y flwyddyn codwyd Cronfa Ddwr yn Glan'rafon i ddal dwy fil o alwyni, a hyderir y bydd hyn yn ateb y gofynion ar sychin.

Deddfau lleol ynglyn a Bwydydd Glan:

Yn gynnar yn y flwyddyn rhoddwyd copi o Ddeddfau Lleol y Cyngor ynglyn a chadw bwydydd yn lan i bob siop-fwyd, a gofynnwyd i bob siop ddangos rhybudd na chaniateir cwn mewn siopau.

Y mae cyflwr siopau bwyd at eu gilydd yn foddhaol, er nad yw rhai aelodau o'r cyhoedd yn talu sylw bob amser i'r rhybudd na chaniateir cwn i ddyfod i mewn i'r siopau hyn.

Adroddiad am archwiliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 1952 yng nghylch Cyngor Dosbarth Penllyn gan yr Arolygydd Iechyd, Mr. D.J.Jones.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | Tai Annedd | 283 | |
| 2. | Tramgwyddiadau | 163 | |
| 3. | Gorlenwi mewn tai | 2 | |
| 4. | Annedd-dai symudol, Pebyll, Faniau (Gwersyll ddidrwydded yng Nglanllyn) | 4 | |
| 5. | Adeiladau a chwmpasoedd heintus | Dim | |
| 6. | Diheintio yn achos Afiechydon Heintus | 3 | |
| 7. | Poptai | 12 | (Un popty yn y Dosbart |
| 8. | Siopau Hufen Ia | 3 | |
| 9. | Siopau Pysgod Ffrio | Dim | (Nid oes un yn y Dosba |
| 10. | Llaethdai | 12 | |
| 11. | Siopau Cig | 24 | (Dwy siop gig) |
| 12. | Siopau Bara (Gwerthir bara yn y siopau groser) | 25 | |

13. Lladd-dai Nid oes un yn y dosbarth.
14. Enghreifftiau o fwyd a gondemniwyd -17 enghraifft.
15. Deddf Siopau, Deddf Iechyd a Chyfleusterau Ymolchi 25
16. Samplau llaeth: Ysgolion - 20, Lleoedd eraill: 2.
17. Samplau Dwr: 47 gan mwyaf ynglyn a chyflenwad dwr ar ffermyddd. Archwilir cyflenwadau'r Cyngor yn rheolaidd. Cysylltwyd deg o dai o'r newydd a chyflenwad dwr.
18. Archwilio Ysgolion: cyflwr Ymolchfeydd a chloseti:- 24.
19. Anfon rhybuddion anffurfiol:- 72.
20. Rhyduddion ystadud:- 1 (Deddf Tai 1936, Adr.9)
21. Atal Tramgwyddiadau:- 72
22. Atal gorlenwi mewn tai:- Dim.

## DEDDF FFATRIOEDD 1937.

Ffatrioedd le y gweithredir Adran 7 o'r Ddedd gan yr Awdurdod Lleol:

| | |
|---|---|
| Nifer ar y Gofrestr | 4 |
| Archwiliadau | 4 |
| Rhybuddion ysgrifenedig | - Dim |
| Deiliaid a erlynwyd | - Neb. |

Cyfieithwyd i'r Gymraeg gan y
Parch Euros Bowen, M.A.